

At Weinidogion Cymru,

## Dyletswyddau Adrodd o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Yn unol â'r dyletswyddau a bennir yn adrannau 7 (3) a 10 (2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, gweler isod adroddiad blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer 2018-2019.

Y camau a gymerwyd i hyrwyddo teithiau llesol	<ul style="list-style-type: none"><li>- Dal ati ag ymgyrch i hyrwyddo Teithio Llesol a chodi ymwybyddiaeth yn ei gylch;</li><li>- Ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o Deithio Llesol ar gyfryngau cymdeithasol;</li><li>- Addysgu a hyfforddi plant mewn ysgolion fel rhan o gynlluniau cenedlaethol <i>Kerbcraft / Bike Safe</i>;</li><li>- Hyrwyddo Teithio Llesol mewn digwyddiadau cyhoeddus yn lleol gan ddefnyddio trelar Diogelwch Ffyrdd y Cyngor;</li><li>- Rhoi cyflwyniadau i grwpiau fel Cymdeithas y Cerddwyr, Grŵp Mynediad i Bobl Anabl Conwy, <i>Cycling UK</i> a Sustrans, yn ogystal â rhai eraill drwy seminarau WeITAG.</li><li>- Cwrdd â datblygwyr lleol, ymgynghorwyr a chontractwyr i'w hysbysu o'r dyletswyddau o ran Teithio Llesol, y cyfrifoldebau, yr amcanion a'r gofynion;</li><li>- Penodi Sustrans i weithio mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gan gynnal gweithdai mewn ysgolion a cholegau lleol i godi ymwybyddiaeth o Deithio Llesol;</li><li>- Ymgysylltu â'r cyhoedd drwy ddarparu gwybodaeth i drigolion a busnesau lleol wrth ddatblygu llwybrau newydd, i roi gwybod am dyluniad y llwybrau a'r Ddeddf Teithio Llesol yn gyffredinol;</li><li>- Gofynnir am ymatebion i bob cynllun gorffenedig gan y cyhoedd / busnesau cyfagos; Wrth ymgysylltu gallwn hyrwyddo ac esbonio'r Ddeddf Teithio Llesol a'r llwybrau.</li></ul>
Y camau a gymerwyd i sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau a gwelliannau cysylltiedig	<ul style="list-style-type: none"><li>- Mae Adain Traffig Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi bod yn meithrin cyswllt yn uniongyrchol â pherchnogion tir er mwyn sicrhau llwybrau newydd yn y Sir yn y dyfodol;</li><li>- Mae'r gwasanaeth Cynllunio Strategol, ar y cyd â'r Adain Traffig, yn adolygu gwelliannau mawr ar ffyrdd y Sir gyda'r nod o gynnwys llwybrau Teithio Llesol yn gynnar mewn cynlluniau;</li><li>- Mae'r Adain Traffig hefyd wedi bod yn darparu canllawiau dylunio i nifer o adrannau mewnol eraill lle gallai gwaith arfaethedig effeithio ar lwybrau sydd ar y Map Llwybrau Presennol neu'r Map Rhwydwaith Integredig, gan gynnwys: Perygl Llifogydd, Cefn Gwlad, Mannau Agored (Adain Cynnal a Chadw);</li></ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Sicrhawyd cyfleusterau Teithio Llesol drwy'r drefn Rheoli Datblygu a phrosesau adrannau 106 a 278 yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>o Terfyn cyflymder 20mya a gwella troedffordd yn Ysgol Dolgarrog (a278);</li> <li>o Cyllid o £20,000 at welliannau ar y ffordd o Orsaf Reilffordd Dolgarrog a'r Pentref drwy <i>Surf Snowdonia</i> (a106);</li> <li>o Datblygiad Lidl yng Nghyffordd Llandudno - gwella llwybr beics drwy gytundeb adran 278 (bydd gwaith yn dechrau ar y safle yn 2020);</li> <li>o Datblygiad yn Abergele, adran 278: cynllun i ddarparu llwybr cyd-ddefnyddio rhwng y datblygiad ac Abergele;</li> <li>o Sicrhau £85,000 gan Marl Developments ar gyfer gwelliannau Teithio Llesol (adran 106) ynghyd â gwaith adran 278 ar flaen y datblygiad;</li> <li>o Gwelliannau Teithio Llesol i gysylltu datblygiad Llys Marl â'r rhwydwaith lleol (adran 278);</li> <li>o Gwella Diogelwch y Ffordd ar hyd Bwlch Sychnant er mwyn creu llwybr cerdded di-dor;</li> <li>o Gwelliannau Teithio Llesol ar hyd Ffordd Llanfair, Abergele ynghyd â £18,000 drwy adran 106;</li> <li>o Croesfannau heb eu rheoli yn Llanrwst drwy gytundeb adran 278;</li> </ul> </li> <li>- Ffurfiwyd gweithgor traws-sirol rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych a <i>Network Rail</i> ac mae trafodaethau'n parhau ynglŷn â llwybr newydd dros hen bont rheilffordd (Foryd) sy'n mynd dros Afon Clwyd (IKBC1).</li> </ul>
<p>Costau a gododd ar gyfer llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau cysylltiedig, a gwella llwybrau teithio llesol a chyfleusterau, yn y flwyddyn ariannol lawn ddiwethaf</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Ffordd y Foryd / Coedlan Llanelwy, Bae Cinmel (oddeutu £300,000, ond dylid nodi mai amcangyfrif yw hwn gan fod y gwaith yn rhan o gynllun adeiladu ehangach) [IKBC11, KWR4, KCR4, TWR4]</li> <li>- A546 Coedlan Maesdu: Cyfleusterau Beicio Oddi ar y Ffordd (£266,791.32) [IDC1]</li> <li>- Promenâd Bae Colwyn (ICBC3) (costau heb eu pennu eto).</li> </ul>

Yn ogystal â'r uchod (dewisol):

<p>Gwariant dangosol ar lwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau cysylltiedig, a gwella llwybrau teithio llesol a chyfleusterau, wedi'i ariannu'n llwyr neu'n rhannol gan drydydd parti</p>	<p>Ni chyflawnwyd unrhyw gynlluniau adeiladu wedi'u hariannu'n rhannol yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Fodd bynnag, fe wnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sicrhau cynlluniau wedi'u hariannu'n llwyr gan drydydd parti fel rhan o ddatblygiadau newydd, ond nid yw'r costau'n hysbys ar hyn o bryd. Nodir y</p>
--	--


	cynlluniau hynny isod yn y rhan sydd a wnelo â llwybrau newydd.
Hyd y llwybrau newydd: - Cerdded - Beicio - Cyd-ddefnyddio	- Lonydd beics 915 metr o hyd ar yr A547 rhwng Hen Golwyn a Llanddulas; - Llwybr cyd-ddefnyddio 232 metr ar hyd Marl Drive (datblygiad Llys Marl); - Llwybr cerdded 15 metr ym Mwlich Sychnant (datblygiad <i>Oakwood</i> ); - Llwybr cyd-ddefnyddio 50 metr ym Mharc Busnes Abergele.
Hyd y llwybrau sydd wedi'u gwella: - Cerdded - Beicio - Cyd-ddefnyddio	- 1,530 metr ar Goedlan Maesdu (gwella llwybr troed i greu llwybr cyd-ddefnyddio) - 950 metr ym Mae Cinmel (gwella llwybr troed i greu llwybr cyd-ddefnyddio)
Cyfleusterau teithio llesol newydd a rhai sydd wedi'u gwella	- Cae Ffynnon – seddi newydd fel rhan o waith tirlunio a chroesfannau wedi'u codi heb eu rheoli; - Bae Cinmel – gwella croesfannau wedi'u rheoli a chroesfannau newydd heb eu rheoli - Coedlan Maesdu – croesfannau newydd heb eu rheoli ac arwyddion; - Croesfannau newydd heb eu rheoli mewn nifer o fannau ledled y sir, gan gynnwys: A547 Llanddulas, Bae Colwyn a Chonwy; - Lle newydd i gadw beics yn swyddfa Gwasanaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau ym Mochdre; - Lle newydd i gadw beics yn natblygiad Coed Pella ynghyd â chroesfannau newydd heb eu rheoli (Bae Colwyn); - Gwella croesfan heb ei rheoli yng Nghyffordd Llandudno.

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

Dim.

Cadarnhaf y caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi ar-lein a'i ddarparu ar bapur ar gais, yn unol â'r Canllawiau Cyflawni statudol.

Llofnod y Prif Weithredwr:



Enw'r Prif Weithredwr:

IWAN DAVIES